# **Arweiniad atodol:** Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM)

**Hydref 2022**

Estyn

estyn.llyw.cymru
@Estyn@DE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol
- ysgolion cynradd
- ysgolion uwchradd
- ysgolion pob oed
- ysgolion arbennig
- unedau cyfeirio disgyblion
- ysgolion annibynnol
- addysg bellach
- colegau arbenigol annibynnol
- dysgu oedolion yn y gymuned
- gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc
- addysg a hyfforddiant athrawon
- Cymraeg i oedolion
- dysgu yn y gwaith
- dysgu yn y sector cyfiawnder

Rydym hefyd:

- yn adrodd i Senedd Cymru ac yn darparu cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Lywodraeth Cymru ac eraill
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/y cyhoeddiad penodol.**

**Beth yw'r diben?**

Rhoi arweiniad i arolygwyr ar yr ystyriaethau y dylid eu rhoi ynghylch dysgwyr ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM).

Mae'r arweiniad hwn yn cyfeirio at y derminoleg anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac iechyd meddwl (CEIM). Mae anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (AEY), anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh) ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY) yn dermau sydd hefyd yn cael eu defnyddio i nodi'r anghenion dysgu ychwanegol hyn.

**Ar gyfer pwy y mae wedi ei fwriadu?**

Holl arolygwyr ysgolion a gynhelir ac ysgolion annibynnol ac addysg ôl-16.

**Pryd y dylid dechrau defnyddio'r arweiniad?**

O fis Awst 2022.

## Cynnwys Tudalen


| | |
|---|---|
| **Arweiniad atodol** | **1** |
| **1 Cyflwyniad** | **2** |
| **2 Diffiniadau** | **2** |
| Maes arolygu 1: Dysgu | 3 |
| Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu | 4 |
| Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu | 5 |
| Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad | 6 |
| Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth | 8 |
| **Atodiad: Darllen pellach** | **10** |

## Arweiniad atodol

Ein dogfennau allweddol sy’n llywio gweithgarwch arolygu yw’r llawlyfrau arweiniad arolygu ar gyfer pob sector. Fodd bynnag, rydym hefyd yn llunio arweiniad atodol i helpu arolygwyr i ystyried agweddau penodol ar addysg a hyfforddiant ymhellach.

Mae’r dogfennau arweiniad atodol yn amlinellu egwyddorion allweddol, ystyriaethau ac adnoddau ar gyfer arolygwyr. Maent yn ymwneud â’r holl sectorau yr ydym yn eu harolygu, oni bai eu bod yn datgan eu bod ar gyfer sector penodol. Maent yn ehangu ar rai agweddau ar addysg / hyfforddiant (e.e. arolygu llythrennedd) neu ar ffyrdd o gynnal arolygiadau (e.e. defnyddio teithiau dysgu) neu drefniadau arolygu penodol (e.e. arweiniad ar arolygu ysgolion eglwysig).

Nid nod y dogfennau arweiniad atodol yw bod yn gynhwysfawr. Nid yw’n ofynnol i arolygwyr weithio trwyddynt yn hollgynhwysfawr wrth ymdrin ag unrhyw agwedd benodol ar arolygiad. Fodd bynnag, gallent fod yn ddefnyddiol i arolygwyr wrth ymateb i gwestiynau penodol sy’n dod i’r amlwg sy’n codi yn ystod arolygiadau neu pan fyddant yn dymuno myfyrio neu ymchwilio ymhellach.

Gallai’r dogfennau arweiniad atodol helpu darparwyr i ennill dealltwriaeth o’n trefniadau arolygu. Hefyd, gallent fod yn fuddiol i ddarparwyr wrth werthuso agweddau penodol ar eu darpariaeth eu hunain.

Mae ein gwaith arolygu wedi’i seilio ar yr egwyddorion canlynol:

- Bydd arolygwyr yn mynd ati i arolygu gyda meddylfryd cadarnhaol i sicrhau bod y staff ym mhob darparwr yn cael y profiad dysgu proffesiynol gorau posibl
- Bydd arolygwyr yn defnyddio ymagwedd at arolygu sy’n canolbwyntio ar y dysgwr
- Bydd arolygwyr bob amser yn canolbwyntio’n gryf ar ansawdd yr addysgu a’r dysgu
- Bydd arolygwyr yn chwilio am arfer arloesol dra ystyriol
- Bydd arolygwyr yn teilwra gweithgareddau’r arolygiad yn unol â’r amgylchiadau ym mhob darparwr cyhyd ag y bo modd
- Bydd arolygwyr yn ystwyth ac yn ymatebol i ganfyddiadau sy’n dod i’r amlwg, a byddant yn defnyddio’r ystod gynyddol o offer a dulliau arolygu sydd ar gael
- Bydd arolygwyr yn ystyried popeth yn y fframwaith arolygu, ond byddant yn adrodd ar y cryfderau allweddol a’r gwendidau yn unig ym mhob darparwr

## 1 Cyflwyniad

Bydd yr arolygydd cofnodol yn ymwybodol o'r proffil ADY mewn ysgol a bydd yn trefnu darpariaeth addas yn ystod yr arolygiad er mwyn gwneud yr ymholiadau dilynol. Mae angen i bob aelod o'r tîm arolygu fod yn ymwybodol o'r ystyriaethau cyffredinol ar gyfer arfer effeithiol yn yr ystafell ddosbarth, a dylent farnu effeithiolrwydd safonau dysgwyr ac addysgu o ran cynlluniau addysg unigol (CAUau), cynlluniau addysg personol (CAPau), cynlluniau datblygu unigol (CDUau) dysgwyr neu gyfwerth.

## 2 Diffiniadau

Mae'n bwysig cydnabod yr iaith wrth ddisgrifio'r set benodol o anghenion y mae'r arweiniad hwn yn eu trafod. Er mai'r categori CYBLD ar gyfer yr angen hwn yw AYECh, rydym wedi penderfynu defnyddio'r term CEIM. Gallai arolygwyr ymweld â darpariaethau sy'n defnyddio un o'r termau eraill, fel anawsterau emosiynol ac ymddygiadol (AEY), anawsterau ymddygiadol, emosiynol a chymdeithasol (AYECh) ac anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (ACEY). Mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar ansawdd y ddarpariaeth i ddiwallu anghenion y dysgwyr hyn, yn hytrach na'r iaith benodol a ddefnyddir.

Mae canllawiau Cymru yn y maes hwn yn cydnabod y bydd y diffiniad o AYECh yn cynnwys llawer o blant sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi, problemau neu anhwylderau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'r unig gyfeiriadau at iechyd meddwl yn Cod ADY Cymru yn cyfeirio at y cyfnod pontio o wasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed i wasanaethau iechyd meddwl oedolion. Diffinnir natur yr anghenion penodol hyn isod:

Mae Deddf ADY 2018 (Cymru) yn diffinio AYECh fel a ganlyn:

> "Bydd rhai plant a phobl ifanc yn dangos nodweddion anawsterau emosiynol ac ymddygiadol. Efallai y byddant wedi mynd i'w cragen neu'n ymbellhau; gallant fod yn aflonyddgar ac yn annifyr, yn orfywiog neu gael trafferth canolbwyntio; efallai na fydd eu sgiliau cymdeithasol wedi datblygu'n llawn; neu efallai y byddant yn ymddwyn yn heriol."

Dyma'r diffiniad o CEIM yng nghod ymarfer SEND Lloegr:

> "Gallai plant a phobl ifanc brofi ystod eang o anawsterau cymdeithasol ac emosiynol sy'n amlygu eu hunain mewn llawer o ffyrdd. Gallai'r rhain gynnwys mynd i'w cragen neu ymbellhau, ymddygiad aflonyddgar neu annifyr. Gallai'r ymddygiadau hyn adlewyrchu anawsterau iechyd meddwl sylfaenol fel gorbryder neu iselder, hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau, anhwylderau bwyta neu symptomau corfforol nad oes esboniad meddygol iddynt. Efallai bod gan blant a phobl ifanc eraill anhwylderau fel anhwylder diffyg canolbwyntio, anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd neu anhwylder ymlyniad."

Mae ffigurau diweddar Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod gan ryw 25,000 o ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd CEIM sylweddol. Mae hyn yn adlewyrchu 24% o'r boblogaeth ADY a 5.3% o garfan yr holl ddisgyblion. Yn y sector cynradd, CEIM yw'r trydydd math o ADY yr adroddir amdano fwyaf (y tu ôl i anawsterau dysgu cyffredinol ac anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu). Mewn ysgolion uwchradd, CEIM yw'r ail fath o ADY yr adroddir amdano fwyaf, yn gyffredinol. Mae gan ddisgyblion â CEIM risg benodol o gael eu gwahardd. Mae'r cyfraddau gwahardd ar gyfer disgyblion â CEIM yn sylweddol uwch na'r rhai ar gyfer poblogaeth gyffredinol y disgyblion. Mae disgybl â CEIM bron 6 gwaith yn fwy tebygol o gael ei wahardd yn barhaol na disgyblion eraill.

**Maes arolygu 1: Dysgu**

- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw data cyrhaeddiad dysgu ar gyfer dysgwyr â CEIM yn dangos bod cynnydd yn cael ei wneud o'u mannau cychwyn cychwynnol?
- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw data ymddygiad a chyrhaeddiad ar gyfer dysgwyr â CEIM yn dangos gwelliant o'u mannau cychwyn cychwynnol?
- Erbyn iddynt adael yr ysgol, a yw dysgwyr â CEIM yn ennill ystod addas o gymwysterau sy'n gweddu'n dda i'w hanghenion, eu diddordebau a'u galluoedd?

**Pa mor dda y mae'r dysgwyr hyn…?**

- yn gallu cyflawni'r targedau cytûn sydd wedi'u cynnwys yn eu cynlluniau unigol?
- yn gwneud cynnydd mewn datblygu medrau cymdeithasol, hunan-barch a hunanhyder o'u mannau cychwyn cychwynnol?
- yn gallu gweithio ag annibyniaeth gynyddol?
- yn cymhwyso'r wybodaeth a'r medrau y maent yn eu datblygu mewn sesiynau cymorth yn gynyddol i'r sefyllfa dosbarth cyfan a bywyd ysgol ehangach?

**Ystyriaethau ar gyfer adfer o COVID**

Mae'n bwysig ystyried y gallai effaith y pandemig ar les a dysgu'r dysgwyr hyn fod yn fwy difrifol nag ar gyfer dysgwyr eraill. Dylem ystyried hyn fesul achos, gan fod yn sensitif i gyd-destun ac anghenion penodol pob dysgwr.

Fel y nodwyd yn ein crynodeb o alwadau ymgysylltu, mae ychydig o ddysgwyr wedi cael trafferth ailintegreiddio a chydymffurfio'n llwyddiannus â disgwyliadau ac arferion newydd, fel amrywio amseroedd dechrau a gorffen y diwrnod. Cafwyd myfyrdodau gan ysgolion hefyd ar yr anghenion cymdeithasol, emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl cynyddol ymhlith dysgwyr ers y pandemig.

Hefyd, i'r dysgwyr hynny sy'n derbyn gofal, gallai'r pandemig fod wedi bod yn gyfnod o gyfle cyfyngedig i gael cyswllt teuluol. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r plant hynny mewn lleoliadau gofal preswyl. Mae gan hyn y potensial i achosi niwed sylweddol i iechyd emosiynol ac iechyd meddwl y dysgwyr hyn, yn ogystal â'u gallu i ymgysylltu'n gadarnhaol ag addysg.

**Maes arolygu 2: Lles ac agweddau at ddysgu**

- Mewn gwersi a thros gyfnod, a yw nifer a difrifoldeb yr achosion o ymddygiad heriol yn lleihau?
- A yw presenoldeb dysgwyr yn briodol, neu'n dangos gwelliant dros gyfnod?

**A yw'r dysgwyr hyn yn gynyddol…?**

- yn gwneud cynnydd mewn datblygu strategaethau i reoli eu hymddygiad mewn gwersi a'r tu allan, o'u mannau cychwyn cychwynnol?
- yn defnyddio strategaethau i reoli eu hemosiynau eu hunain yn ddiogel?
- yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u gwaith?
- yn dangos ystyriaeth at ei gilydd ac at staff?
- yn dilyn y cyfarwyddiadau gan staff?
- yn gallu gweithio'n effeithiol gyda'u cyfoedion? Er enghraifft, wrth wneud gwaith grŵp neu mewn cyd-destun chwaraeon?
- yn gwrando ar ei gilydd ac yn ymgymryd â deialog ystyrlon a phriodol gyda staff a chyfoedion?
- yn gwneud cynnydd mewn datblygu eu medrau cymdeithasol?
- yn cymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau amdanyn nhw eu hunain a'u dysgu?
- yn hyderus a dyfeisgar wrth weithio'n annibynnol?

**Ailintegreiddio**

Wrth arolygu lleoliadau lle mae dysgwyr wedi symud i UCDau, efallai y bydd arolygwyr am ystyried y canlynol:

- Pa mor effeithiol yw'r trefniadau pontio rhwng ysgolion ac UCDau?
- Pa mor dda y mae dysgwyr yn ailintegreiddio yn ôl i'r ysgol ar ôl mynychu'r UCD?
- A yw dysgwyr yn aros yn narpariaeth yr UCD yn rhy hir?
- A yw'r ysgol yn gweithio gyda'r UCD i rannu arbenigedd?
- A yw'r ysgol yn rhannu a derbyn gwybodaeth briodol gyda'r UCD?
- A yw dysgwyr yn aros ar y gofrestr yn yr ysgol tra'n mynychu'r UCD?
- A yw ysgolion yn sicrhau eu bod yn gweithio gydag UCDau i sicrhau bod gofynion mewn CDUau (neu debyg) yn cael eu bodloni?
- A yw arweinwyr yn monitro cynnydd dysgwyr ar y gofrestr sy'n mynychu UCDau?

## Maes arolygu 3: Addysgu a phrofiadau dysgu

### A yw athrawon…?

- yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o’u hanghenion a’u galluoedd?
- yn modelu ymddygiad priodol sy’n adlewyrchu disgwyliadau ystafell ddosbarth? A yw hyn yn parhau pan fyddant yn wynebu her?
- yn meithrin perthnasoedd gwaith ymddiriedus ac empathig?
- yn rhoi sicrwydd a sefydlogrwydd?
- yn adnabod cryfderau ac yn dangos bod dysgwyr yn werthfawr ac yn cael eu gwerthfawrogi?
- yn gweithio’n effeithiol gyda staff cymorth a staff arbenigol i greu amgylchedd dysgu cadarnhaol a chefnogol?
- yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol i uchafu dysgu?
- yn sicrhau gwerthoedd a disgwyliadau clir a chyson ar gyfer yr holl ddysgwyr?
- yn sicrhau bod disgwyliadau o ymddygiad da yn cael eu trosi’n glir yn gyfleoedd dysgu ac addysgu?
- yn sicrhau bod eu cynllunio yn ystyried anghenion a diddordebau’r dysgwyr?
- yn darparu ymagwedd hyblyg a phersonoledig at addysgu a dysgu i ddiwallu anghenion a diddordebau unigol y dysgwyr?
- yn cynnal cymhelliant ac yn gwobrwyo ymddygiad cadarnhaol yn gyson?
- yn datblygu medrau annibyniaeth a gwydnwch dysgwyr yn briodol?
- yn sicrhau nad yw anghenion penodol y dysgwr yn rhwystr rhag elwa ar ystod eang o brofiadau dysgu?
- **A yw’r ysgol** yn sicrhau bod llwybrau dysgu unigol yn hyblyg gydag ystod eang ac ystyrlon o brofiadau ysgogol sy’n briodol i anghenion a diddordebau’r dysgwyr?
- **A yw’r ysgol** yn sicrhau bod digon o gyfleoedd i ddysgwyr ymarfer medrau bywyd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn?

**Gwaharddiadau**

Wrth ystyried effeithiolrwydd yr ysgol o ran rheoli'r dysgwyr hyn a'r defnydd o waharddiadau, efallai bydd arolygwyr am ystyried:

- A yw ysgolion yn defnyddio gwaharddiadau yn unol â deddfwriaeth, arweiniad a'u polisïau eu hunain?
- A yw'r ysgol wedi ystyried dewisiadau eraill yn lle gwahardd, fel cymorth bugeiliol, cyfiawnder adferol, gwaharddiad mewnol neu symudiad wedi'i reoli?
- A yw gwaharddiadau ar gyfer yr amser byrraf yn angenrheidiol? A yw'r ysgol yn parhau i ddarparu addysg trwy gydol cyfnodau o waharddiadau? A yw gwaith yn cael ei farcio?
- A yw cofnodion ar gyfer gwaharddiadau yn dangos bod ymddygiadau a chanlyniadau tebyg yn cael eu hailadrodd? A yw'r ysgol yn addasu eu hymagwedd ar gyfer y disgybl at hyn?
- A yw'r ysgol yn ailintegreiddio dysgwyr yn llwyddiannus ar ôl cyfnodau o wahardd?
- A yw'r ysgol yn adolygu ei defnydd o waharddiadau? Beth mae'r adolygiadau hyn wedi'i ddangos? Er enghraifft, a ydynt yn amlygu patrymau yng nghyfraddau gwaharddiadau'r rhai â nodweddion gwarchodedig neu ddefnydd o waharddiadau dros gyfnod?
- A yw dysgwyr ag ADY wedi cael eu gwahardd? Pam? Beth oedd yr effaith?
- A yw dysgwyr sy'n derbyn gofal wedi cael eu gwahardd? Pam? Beth oedd yr effaith?
- A yw arferion gwahardd yn yr ysgol yn effeithiol o ran cadw dysgwyr yn ddiogel a gwella ymddygiad?

**Maes arolygu 4: Gofal, cymorth ac arweiniad**

- I ba raddau y mae'r ysgol yn llwyddo i nodi, deall a chefnogi problemau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl dysgwyr?

- A yw'r ysgol yn monitro a chofnodi pob achos o ymddygiad heriol myfyrwyr i nodi patrymau a thueddiadau penodol yn ofalus?

- A yw'r ysgol yn defnyddio cysylltiadau effeithiol gyda theuluoedd a gwasanaethau cymorth eraill i gefnogi lles dysgwyr?

- Pa mor effeithiol yw'r rhaglen ymyrraeth a chymorth ar gyfer myfyrwyr ag anawsterau CEIM?

- A yw cymorth ychwanegol yn targedu datblygiad medrau bywyd ac yn meithrin annibyniaeth?

- A yw'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o dargedau ystyrlon mewn CDUau i uchafu cymorth a chynnydd?

- A yw'r ysgol yn ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid, gan gynnwys rhieni, gofalwyr, ysgolion blaenorol ac arbenigwyr, i nodi anghenion dysgwyr a threfnu darpariaeth briodol?

- A yw'r ysgol yn gwneud dysgwyr a theuluoedd yn ymwybodol o gymorth proffesiynol a gwasanaethau arbenigol sydd ar gael? Er enghraifft, cwnsela neu wasanaethau iechyd meddwl.
- A yw'r ysgol yn cydnabod a gwobrwyo cyflawniad? A gaiff hyn ei wneud yn gyson ac yn deg?
- A gaiff cosbau eu defnyddio'n deg ac yn gyson? A ydynt yn briodol?
- A yw'r ysgol yn rhoi cyfleoedd gwerth chweil i fyfyrwyr ag anawsterau CEIM ddatblygu eu dealltwriaeth o wneud dewisiadau da ynghylch ffordd o fyw?
- I ba raddau y mae'r ysgol yn galluogi ac annog dysgwyr ag anawsterau CEIM i wneud penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw? A wrandewir ar eu safbwyntiau, ac a weithredir yn unol â nhw?
- A gaiff y dysgwyr hyn eu cynrychioli ar draws yr ysgol? Er enghraifft, yn y cyngor ysgol, mewn clybiau, a dramâu ysgol.
- A yw polisïau a gweithdrefnau diogelu'r ysgol yn ystyried bregusrwydd cynyddol dysgwyr ag anawsterau CEIM ac yn sicrhau bod trefniadau ar gyfer y dysgwyr hyn yn briodol?
- A oes gan yr ysgol bolisi clir ynglŷn â defnyddio ymyrraeth gorfforol gyfyngol? A oes gan yr ysgol systemau priodol i gofnodi digwyddiadau? A yw staff yn dilyn y gweithdrefnau hyn yn drylwyr?

**Ataliaeth**

Pryd caiff ataliaeth ei chaniatáu?

Yng Nghymru a Lloegr, mae gan staff ysgol y pŵer i ddefnyddio 'grym rhesymol' i atal dysgwr rhag:

- cyflawni unrhyw drosedd
- achosi anaf personol i unrhyw berson, neu ddifrod i'w eiddo (gan gynnwys nhw eu hunain)
- niweidio cynnal trefn a disgyblaeth dda yn yr ysgol neu ymhlith unrhyw ddysgwyr sy'n cael addysg yn yr ysgol. (Llywodraeth y DU, 2006a)

Gall staff ddefnyddio grym rhesymol hefyd wrth arfer y pŵer statudol i chwilio dysgwyr am arfau, heb eu cydsyniad, os oes ganddynt resymau rhesymol i'w hamau.

Hefyd, gall staff wahanu neu ynysu dysgwr mewn ardal oddi wrth ddysgwyr eraill os yw'n aflonyddgar. Gellir defnyddio'r dull hwn fel cosb ddisgyblu. Mae gan ysgolion ddisgresiwn ynglŷn â pha mor hir i ynysu dysgwr ac ym mha amgylchiadau, gan arwain at amrywiaeth o arferion. Rhaid i ysgolion gael polisi ymddygiad a ddylai amlinellu beth yw'r arferion hyn. (Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 2021)

Gellir cael mwy o wybodaeth yn y ddogfen Canllawiau Llywodraeth Cymru: Ymyriad diogel ac effeithiol – defnyddio grym rhesymol a chwilio am arfau.

## Maes arolygu 5: Arweinyddiaeth a rheolaeth

**A yw arweinwyr yn yr ysgol…?**

- yn cyfleu gweledigaeth glir ac ethos o gynhwysiant ac amrywiaeth?
- yn rhoi ffocws strategol priodol ar ddeilliannau a darpariaeth ar gyfer dysgwyr ag anawsterau CEIM?
- yn darparu polisïau addysgu a dysgu ac ymddygiad ysgol gyfan clir sy'n cael eu deall a'u dilyn gan staff?
- yn sicrhau bod **pob** un o'r staff yn fedrus ac yn cael cymorth, ac yn cael cyfleoedd rheolaidd ar gyfer dysgu proffesiynol mewn strategaethau ystafell ddosbarth a methodoleg ar gyfer dysgwyr ag anawsterau CEIM?
- yn hwyluso hyfforddiant staff mewn meysydd perthnasol? Er enghraifft, trawma ac ymlyniad
- yn sicrhau bod mentora / sefydlu athrawon newydd gymhwyso yn cynnwys dulliau addysgu ar gyfer anawsterau CEIM? Neu hyfforddiant ar anghenion penodol dysgwyr yn yr ysgol?
- yn sicrhau cyswllt effeithiol ag asiantaethau eraill i sicrhau bod cymorth ychwanegol yn diwallu anghenion dysgwyr?
- yn dyrannu adnoddau digonol, gan gynnwys staffio, i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anawsterau CEIM?
- yn dangos ymrwymiad i drefniadau "symudiad wedi'i reoli" yr awdurdod lleol os yw'n briodol?

**Symudiadau wedi'u rheoli**

Trefn wedi'i chynllunio'n ofalus i drosglwyddo dysgwr o un ysgol i un arall yw symudiad wedi'i reoli.

Mae'n galluogi plentyn neu berson ifanc i symud ymlaen i leoliad neu raglen newydd mewn ffordd sy'n dderbyniol i'r holl bobl briodol, yn enwedig y dysgwr. Mae'r broses wedi'i dylunio i helpu'r dysgwr i symud ymlaen a dechrau o'r newydd.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen rhoi ystyriaeth lawn i ymgysylltiad llawn y dysgwr, y rhieni / gofalwyr a'r ysgolion, a bod angen mynd i'r afael â phroblemau cludiant, er mwyn i symudiad wedi'i reoli fod yn llwyddiannus.

Wrth ystyried defnyddio symudiad wedi'i reoli mewn ysgol, efallai bydd arolygwyr yn dymuno ystyried y canlynol:

- Pa mor effeithiol y mae ysgolion yn cynorthwyo dysgwyr a’u teuluoedd cyn, yn ystod ac ar ôl symudiad wedi’i reoli?
- A yw’r ysgol yn defnyddio symudiadau wedi’u rheoli fel ffordd o leihau gwaharddiadau?
- A yw’r holl symudiadau wedi’u rheoli er lles pennaf y dysgwr?
- A yw’r ysgol yn defnyddio cymorth effeithiol i leihau’r angen am symudiadau wedi’u rheoli?
- A yw’r ysgol yn sicrhau bod dysgwyr a’u teuluoedd yn gallu cael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd?
- A yw’r ysgol yn rhannu gwybodaeth briodol gydag ysgolion eraill trwy gydol proses y symudiad wedi’i reoli?

## Atodiad: Darllen pellach

Deunyddiau darllen eraill perthnasol:

Datblygu medrau cymdeithasol ac emosiynol disgyblion | Estyn (llyw.cymru)

Ymddygiad a disgyblaeth yn yr ysgol | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

Dulliau Ymarferol o Reoli Ymddygiad yn yr Ystafell Ddosbarth

Cynorthwyo dysgwyr mewn unedau cyfeirio disgyblion i ddychwelyd i ysgolion prif ffrwd | Estyn (llyw.cymru)

Gwahardd o ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (llyw.cymru)

Adroddiad arolwg thematig symudiadau wedi'u rheoli (llyw.cymru)